# BRÂN GOESGOCH



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddeb Adar[a] (Atodiad I) |
| | Cytundeb Bern (Atodiad II) |
| DU a Chymru | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rhestr 1) |
| | Adar o bryder cadwraeth[b] (rhestr ambr) |
| | RoCB[c] |
| | Rhestr A74 Cymru[d] |
| Gwynedd | CGB Eryri |
| | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn |
| | Arfordir Treftadaeth |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Yn y Deyrnas Unedig, mae'r frân goesgoch[e] â phoblogaeth o tua 342 o barau[f] sydd wedi eu cyfyngu i'r arfordir gorllewinol – Cymru, Yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae tua 98 o barau ar Ynys Manaw. Mae poblogaethau Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dangos arwyddion o fod yn adfer o ddirywiadau diweddar.

Mae tua 180 o barau yng Nghymru, ac i'w canfod ar hyd yr arfordir o Forgannwg i Sir Gaernarfon ac yn fewndirol yn Eryri a'r Mynyddoedd Cambriaidd (Sir Drefaldwyn, Meirionnydd, Ceredigion). Ar y cyfan, mae'r boblogaeth yn eithaf sefydlog er bod dirywiadau lleol wedi eu hadlewyrchu gan gynyddiadau lleol.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd[g]

Roedd 67 o safleoedd a parau yng Ngwynedd yn 2002 ac mae'r boblogaeth wrthi'n cynyddu ar hyn o bryd, er y credir fod y cynnydd hwn i'w briodoli'n rhannol i gynnydd mewn ymdrechion arolygon a gwell methodoleg arolygu. Mae poblogaeth yr arfordir yn ymestyn o'r Gogarth ar yr arfordir gogleddol i arfordir deheuol Llŷn, tra bod y boblogaeth fridio mewndirol ar wasgar drwy Eryri. Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn magu mewn chwareli (rhai ar waith a rhai na ddefnyddir bellach), adeiladau cysylltiedig a mwyngloddiau na ddefnyddir bellach. Bu gostyngiad yn y boblogaeth yn fewndirol ym Meirionnydd. Mae rhai rhannau o'r sir o bwysigrwydd hanfodol fel mannau bwydo a chlwydo ar gyfer adar ifanc nad ydynt yn magu o Ynys Môn a Cheredigion, yn ogystal â'r rhai o Wynedd.

---

[a] Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC o 2 Ebrill 1979 ynglŷn â gwarchod adar gwyllt
[b] Statws poblogaeth yr adar yn y DG – Adar o bryder cadwraeth: 2002 - 2007, rhestr ar gael ar wefan Cydbwyllgor Gwarchod Natur (CGA)
[c] Rhestr Rhywogaethau o Bryder Cadwraeth
[d] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru – Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron 2003.
[e] *Pyrrhocorax pyrrhocorax*
[f] Ffigyrau 1998
[g] Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall.


## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO'R RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD[h]

- Maint ac ansawdd y cynefin bwydo. Mae newidiadau mewn uchder a dwysedd glaswellt yn effeithio ar hyn (drwy newidiadau mewn patrymau pori/llosgi), newidiadau mewn pori sy'n effeithio ar y cyflenwad o infertebrata tail, gwelliannau amaethyddol, newid defnydd tir e.e. coedwigiad, sefydlogi clogwyni clai ansefydlog, a thresmasiad rhedyn.
- Gallai defnydd o gemegau gwrth-barasitig sy'n para'n hir, fel afermectinau (yn enwedig bolysau), ar gaeau arfordirol a borir gan dda byw ac ar glogwyni atal heidiau o bryfaid sy'n diraddio tail sy'n ffynhonnell fwyd bwysig ar gyfer brain coesgoch.
- Aflonyddwch gan bobl, i amcanion hamdden yn bennaf sy'n cynnwys dringo, sgramblo a cherdded ond hefyd i amcanion gwylio adar. Hefyd, posibiliadau gweithgareddau hamdden yn y dyfodol neu rai newydd e.e. barcuta, paresgyn, etc.
- Gallai presenoldeb helwyr naturiol e.e. hebog tramor, fod yn ffactor sy'n effeithio ar nytheidiau cyffredin a llwyddiant cywion bach.
- Hinsawdd – gallai sychder yn yr haf / ysbeidiau oer estynedig yn y gaeaf a thir caled o ganlyniad i hyn achosi mwy o farwolaethau. Gallai tywydd gwael ddiwedd y gwanwyn effeithio ar lwyddiant y cywion bach; mae goroesiad drwy'r gaeaf yn cael ei ystyried fel un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyfyngu'r brif boblogaeth.
- Argaeledd safleoedd addas ar gyfer nythu gan gynnwys capio / rhidyllu agoriadau cloddfeydd a dinistrio safleoedd nythod o ganlyniad i weithgareddau chwarelyddu.

## 3. CGR/CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Cloddiau, Rhostir yr ucheldir, Rhostir yr iseldir, Creigiau, chwareli, mwynfeydd a sgri mewndirol, Clogwyni a llethrau glan mor, Twyni tywod arfordirol, Traethlinau.

Mwyalchen y mynydd, Llinos y mynydd



[h] Gweler hefyd yr CGCau cysylltiedig am ragor o ffactorau cyffredinol sy'n effeithio ar gynefionedd y rhywogaeth hon.

## 4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Bydd rhai nythfeydd o frain coesgoch yn disgyn oddi mewn i rannau o arfordir Gwynedd sydd wedi eu dynodi fel ymgeisydd ACA (Clogwyni Môr Llŷn) a / neu AGA (Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd St Tudwal – lle mai'r nythfeydd o frain coesgoch yn reswm dros y dynodiad).
- Mae'r rhan fwyaf o arfordir Gwynedd yn ymylu ar naill ai ymgeisydd ACA morol Pen Llŷn a'r Sarnau neu ymgeisydd ACA morol Afon Menai a Bae Conwy.
- Hefyd, bydd nythfeydd o frain coesgoch yng Ngwynedd yn aml yn disgyn oddi mewn i SoDdGA (er enghraifft Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Sant Tudwal), neu o fewn ardaloedd a ddynodwyd fel Safleoedd Bywyd Gwyllt arfaethedig.
- Mae Ynys Enlli, sydd â phoblogaeth o frain coesgoch, yn GNC.
- Mae llawer o arfordir Pen Llŷn wedi ei ddynodi fel Arfordir Treftadaeth, ac mae llawer o'r Penrhyn wedi ei gynnwys yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

### 4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Cynhaliwyd prosiect 3 blynedd ar warchod y frân goesgoch a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2000 a 2003, a oedd yn cynnwys rheoli rhedyn, ailgyflwyno pori ar lethrau arfordirol wedi eu gadael, darparu caeau sofl, ac atgyweirio cloddiau.
- Bydd elfennau o'r prosiect hwn yn parhau yn y prosiect Tydi Adar Cymru yn Wych, a ddechreuodd yn 2003, wedi ei ariannu gan arian Amcan 1 yr UE a chan nifer o bartneriaid, dan arweiniad y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Un o'r ddau faes targed ar gyfer cynyddu poblogaethau brain coesgoch yng Nghymru yw arfordir de Meirionnydd rhwng Y Friog a Thywyn. Hefyd, bydd dau swyddog cyswllt cymunedol yn cael eu lleoli yng Ngwynedd/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae'r Fran goesgoch yn un o'r rhywogaethau sy'n gymwys ar gyfer derbyn cyllideb o Cronfa Her Rhywogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Cynhaliwyd nifer o arolygon brain coesgoch drwy Gymru gyfan ers canol y 1990au.
- Mae prosiect modrwyo â lliwiau yn mynd rhagddo, casglu data ar wasgariad, symudiad tymhorol, goroesiad yr oedolion a'r ifanc, oed y magu cyntaf a ffilopatri genedigol (Cross a Stratford).
- Fel rhan o'r prosiectau sydd wedi eu hamlinellu dan 4.2, mae safleoedd clwydo a nythu wedi eu harolygu yn rheolaidd, ac mae data ar safleoedd bwydo wedi ei gofnodi a'i gydgadsglu.
- Cynhaliwyd prosiect ymchwil y GFGA 'Brain Coesgoch a defnydd tir yng ngogledd Cymru' rhwng 1996 a 1998

## 5. AMCANION CYNLLUN GWEITHREDU

1. Diogelu, cynnal a chynyddu'r boblogaeth a'r amrediad presennol yng Ngwynedd.
2. Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anghenion y rhywogaeth drwy annog ymchwil pellach i mewn i'w ecoleg.
3. Dangos, drwy ganllawiau arferion gorau, fuddion economaidd rheoli cynefinoedd y frân goesogch i berchenogion tir, ffermwyr, y diwydiant twristaidd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

## 6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

| Côd | Gweithredu | Partner(iaid)[i] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio I sicrhau fod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gytûn a gwarchod y Fran goesgoch.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CG**, Partneriaid perthnasol |
| 2 | Sicrhau bod deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol yn cael ei hystyried mewn perthynas â diogelu'r safleoedd nythu, safleoedd clwydo a'r cynefinoedd bwydo pwysig presennol.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, HGC |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 3 | Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu defnyddio cytundebau rheoli lle bo'n briodol i sicrhau bod mannau bwydo y frân goesgoch yn cael eu rheoli ac/ neu atgyweirio mewn modd ffafriol, gan ystyried anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl cysylltiedig eraill.[j]<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol | **CCGC**, CT, AACCG, UAC, GCFBG, CG, UCF, YG, CFGA |
| 4 | Lle bo'n bosibl, sicrhau bod anghenion y frân goesgoch o ran cynefin yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfarwyddiadau rheoli tir dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, AACCG, GCFBG, CG, YG |
| 5 | Chwilio am arian ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, gan gynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth addas ac/neu atgyweirio cynefin ar gyfer y Fran goesgoch.<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005 | **CG**, Partneriaid perthnasol |
| 6 | Cyfyngu ar unrhyw amhariad a achosir gan fynediad i amcanion hamdden gerllaw safleoedd nythod neu glwydfanau drwy fod mewn cysylltiad gyda'r British Mountaineering Council<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |
| 7 | Diogelu'r holl safleoedd nythu posibl a chlwydfanau rhag datblygiadau amhriodol, yn enwedig capio, rhidyllu neu adfer cloddfeydd.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |
| 8 | Ceisio cyfyngu ar unrhyw fynediad ar safleoedd nythu mewn modd priodol lle gallai hel wyau neu ganiatáu mynediad i'r cyhoedd achosi methiant parhaus y pâr sy'n magu<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |
| 9 | Cynnal pyst pyllau mwynau neu nodweddion eraill a wnaed gan ddyn pan fônt yn nodwedd allweddol o'r safle nythu. Sicrhau bod y safleoedd nythu sydd wedi eu gosod yn artiffisial yn cael eu cynnal – bocsys nythu a safleoedd eraill sydd wedi eu gwneud yn artiffisial ac wedi eu cryfhau.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |
| 10 | Cadw agoriadau cloddfeydd a safleoedd chwarel yn rhydd rhag prysgoed neu goed.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |
| 11 | Sicrhau bod yr holl safleoedd nythu mewn chwareli sydd ar waith yn cael eu dynodi ac nad yw'r nythod yn cael eu dinistrio yn ystod y tymor magu na bod yr oedolion yn gorfod dioddef unrhyw aflonyddwch difrifol yn deillio o waith y chwarel.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA**, CCGC, CG |

[i] Dangosir y prif bartner ar gyfer y cam gweithredu mewn teip du trwm, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor** | | |
| 12 | Sicrhau bod yr holl borwyr a gwasanaethau cynghori fferm yn ymwybodol o bwysigrwydd brain coesgoch yn yr ardal a darparu cyngor ar ddewisiadau priodol o ran rheoli.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol | **CFGA,** CCGC, CG, AACCG, GCFBG, YG |
| 13 | Gwasgaru unrhyw wybodaeth a geir o ganlyniad i ymchwil cyfredol y GFGA ar arferion rheoli a argymhellir ar gyfer cynnal neu wella mannau bwydo i frain coesgoch i gyrff perthnasol.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA,** CCGC, CG, YG |
| **Arolygon, ymchwil a monitro** | | |
| 14 | Monitro'r defnydd o fannau bwydo lle caiff dwysedd stocio neu gyfarwyddyd rheoli eu haddasu.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA,** CCGC, YG |
| 15 | Parhau i gofnodi a chydgasglu gwybodaeth ar safleoedd bwydo<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA,** CCGC |
| 16 | Cydgasglu data ar dreialon caeau sy'n ymchwilio i foddau priodol o reoli tir er budd bwydo brain coesgoch.<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005 | **CFGA,** CCGC, YG |
| 17 | Trefnu arolygon priodol o dyllau cloddfeydd, chwareli ac adeiladau chwarel sydd am gael eu cau neu newid defnydd<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA,** CCGC, CG |
| 18 | Cefnogi dadansoddi a chyhoeddi data modrwyo lliwiau Cross a Stratford<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005 | **CFGA,** CCGC |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 19 | Codi proffil cyhoeddus ac ymwybyddiaeth gyffredinol o'r frân goesgoch a'i anghenion ymysg ffermwyr lleol, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy fynd i sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol, drwy'r cyfryngau, a thrwy gynhyrchu/dosbarthu defnyddiau cynghori/gwybodaeth ar gyfer perchenogion tir.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CFGA,** CCGC, CG |

# 7 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

## 7.1 Partner Arweiniol Cyffredinol ar gyfer CGR

Cymdeithas Frehinol er Gwarchod Adar (CFGA)

## 7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (AACCG)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Grŵp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Heddlu Gogledd Cymru (HGC)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

### 7.3 Cyfleon

Dringwyr, Cyngor Mynydda Prydeinig, perchenogion chwareli, undebau amaeth, perchenogion a rheolwyr tir

## 8 DIOLCHIADAU

Prif awdur: Dave Lamacraft (CFGA)
Ymgynghori: Sian Whitehead (CCGC)
Lluniau: English Nature

## 9. BYRFODDAU

AHNE: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol CGB: Cynllun Gweithredu Bioanrywiaeth, AAS: Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif GNL: Gwarchodfa Natur Leol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CGC:Cynllun Gweithredu Cynefin

Fersiwn 1, 2004